

YMDDIRIEDOLAETH CLOUGH WILLIAMS-ELLIS FOUNDATION

RHODFA CASTANWYDD Y MEIRCH YNG NGERDDI PLAS BRONDANW.

Trist yw nodi y bydd y rhodfa o goed castanwydd y meirch sy'n arwain o Blas Brondanw i'r Wrn Fflamlyd yn cael ei dymchwel oherwydd pryderon iechyd a Diogelwch sylweddol.

Mae dau glefyd yn effeithio ar gastanwydd y meirch, y cancr gwaedlyd a thuriwr castanwydd y meirch, a dyna pam eich bod yn aml yn gweld y coed yn newid i liwiau'r hydref yn gynnar. Er nad yw turiwr castanwydd y meirch yn lladd y coed, mae'r cancr gwaedlyd yn gallu gwneud ac mae'n aml yn achosi i goed golli canghennau mawr. Efallai eich bod wedi sylwi yn y blyneddoddi diwethaf bod canghennau fel hyn wedi cwmpo yn y rhodfa a'n bod hefyd wedi colli nifer o'r coed hyn. Fe'n cynghorwyd gan goedyddiwr bod yn rhaid dymchwel rhagor o'r coed gan fod perygl mawr y byddant yn cwmpo.

Ar ôl ymgynghori â CADW a'r Swyddog Coed ym Mharc Cenedlaethol Eryri, cynghorwyd Ymddiriedolaeth Clough Williams-Ellis Foundation mai torri'r rhodfa gyfan ac ailblannu gyda rhywogaethau mwy gwydn sy'n ymwrthod â chlefydau fyddai'r dull mwyaf priodol o weithredu. Nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad hwn. Fodd bynnag, rhaid rhoi blaenoriaeth i gadw'r rhodfa, fel y'i dyluniwyd gan Clough Williams-Ellis, sy'n rhan bwysig o Ardd Restredig Gradd I, yn ogystal â sicrhau iechyd a diogelwch y cyhoedd, ymwelwyr a staff sy'n gweithio ym Mhlas Brondanw.

O'r herwydd, bydd y rhodfa o gastanwydd y meirch yn cael ei thorri ym mis Ionawr 2020 a'i ailblannu ar unwaith â choed phisgwydd dail bach safonol.

Mewn mannau eraill ar yr Ystâd, bwriedir plannu coed ychwanegol i ddisodli coed a gollwyd ac os oes gan unrhyw un bryderon neu os oes ganddyn nhw ddiddordeb yn y cynigion hynny, dylid siarad â Richard Jones-Perrott neu Frances Steer, o asiant rheoli'r Ystâd, ar 01743 241181.